

POLISI DERBYN PRIFYSGOL ABERTAWE

A Cyflwyniad

B Strwythurau a Phrosesau

- B1. Polisi Derbyn
- B2. Egwyddorion Derbyn Cyffredinol
- B3. Y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn
- B4. Ehangu Mynediad a defnyddio gwybodaeth gyd-destunol wrth dderbyn

C Meini Prawf Derbyn

- C1. Gofynion mynediad israddedigion amser llawn
- C2. Gofynion mynediad ôl-raddedig
- C3. Rhaglenni galwedigaethol a rhan-amser
- C4. Gofynion iaith Saesneg
- C5. Amodau derbyn eraill

Ch Y broses gwneud cais

- Ch1. Ceisiadau
- Ch2. Dewisiadau
- Ch3. Y broses gwneud cynnig
- Ch4. Derbyn ein cynnig
- Ch5. Polisi canslo
- Ch6. Cadarnhau canlyniadau
- Ch7. Cofrestru ôl-raddedigion

D Gwybodaeth i ymgeiswyr mewn amgylchiadau penodol

- D1. Derbyn plant dan 18 oed
- D2. Ymgeiswyr ag anableddau
- D3. Ymgeiswyr ag euogfarnau troseddol
- D4. Ymgeiswyr sy'n ceisio mynediad wedi'i ohirio
- D5. Achrediad Dysgu Blaenorol (APL)
- D6. Ymgeiswyr sy'n dymuno ailymgeisio
- D7. Ymgeiswyr y mae angen fisa arnynt i astudio yn y DU

Dd. Adborth, cwynion ac apeliadau

E. Gwybodaeth anwir neu gamarweiniol sy'n cefnogi cais

F. Defnyddio data ymgeisydd

Ff. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yn y broses gwneud cais

G. Ymwadiad, tynnu'n ôl a newidiadau i raglenni

A. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu côd ymarfer y Brifysgol (gan gynnwys polisiau, gweithdrefnau a gwybodaeth gysylltiedig) ar gyfer derbyn myfyrwyr ar raglenni israddedig ac ôl-raddedig (a addysgir ac ymchwil). Mae'n rhoi gwybodaeth am awdurdod a chyfrifoldebau'r rhai hynny sy'n rhan o'r broses, gan amlinellu sut y caiff anghydfodau eu datrys.

Caiff myfyrwyr eu derbyn i'r Brifysgol ar ddisgresiwn y Brifysgol yn unig.

Nod y polisi cyffredinol ar dderbyn yw cefnogi Cenhadaeth y Brifysgol a'i Hamcanion Strategol (y ceir copi ohonynt yn <http://www.swansea.ac.uk/pspu/media/Strategic-Plan.pdf>).

Bydd y Brifysgol bob amser yn ceisio gweithredu gweithdrefnau sy'n deg ac sy'n unol â chyfraith y Deyrnas Unedig, Siarter y Brifysgol, ei Hystatudaau, ei Hordinhadau a'i Rheoliadau, a chyfreithiau cyfiawnder naturiol. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth benodol â deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwahaniaethu (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad), y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, etc)

Mae gweithdrefnau derbyn y Brifysgol hefyd yn ystyried canllawiau arfer gorau a gyhoeddir gan gyrff eraill, gan gynnwys Côd Ymarfer a Chefnogi Proffesiynoldeb wrth Dderbyn (SPA) yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a dogfennau a chyfarwyddiadau y gellir eu cyhoeddi gan y Llywodraeth, Cyngor Cyllido Addysg Uwch (Cymru) a'r Cyngorau Ymchwil.

B. Strwythurau a Phrosesau

B1. Polisi Derbyn

Caiff Polisi Derbyn y Brifysgol ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn. Mae'r Polisi, a gymeradwywyd gan y Senedd, fel a ganlyn:

"Nod ein Polisi Derbyn yw annog cofrestrriad myfyrwyr â'r potensial i ddysgu amrywiaeth eang o sgiliau newydd a chymhleth; meistroli corff helaeth o wybodaeth uwch ac uwchben popeth, ymgymryd â chyfnod o ddatblygu deallusol cadarn a fydd yn arwain at ddyfarniad cymhwyster Prifysgol.

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau gan bobl ni waeth eu hoedran, eu hethnigrwydd neu eu tarddiad cenedlaethol, eu hil, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu statws priodasol, eu cyfrifoldeb teuluol, eu hanableddau corfforol neu synhwyrdd, eu credoau gwleidyddol neu grefyddol a'u gweithgareddau, oni bai fod y gweithgareddau hynny'n anghyfreithlon neu'n groes i bolisiau'r Brifysgol.

Wrth ystyried addasrwydd ymgeisydd at ddibenion derbyn, bydd y bobl sydd wedi'u dirprwyo â'r dasg o argymell derbyn myfyrwyr yn ystyried, fel y bo'n briodol, berfformiad academaidd blaenorol; dysgu arbrofol blaenorol; argaeledd (neu ddifffyg) cyfleoedd ac adnoddau dysgu addas, seicolegwyr addysgol neu ymarferwyr meddygol; cofnodion o gyflawniadau; tystiolaeth o ymrwymiad a chymhellid; ansawdd gwaith ysgrifenedig; perfformiad mewn cyfweiliad neu dan amodau arholiad. Bydd y rhai sy'n dethol myfyrwyr hefyd yn ystyried gallu'r ymgeisydd i gyfrannu at fywyd diwylliannol, chwaraeon neu gymdeithasol y Brifysgol a'r gymuned.

Rydym yn cydnabod er y bydd rhai myfyrwyr yn bodloni rhai o'r meini prawf hyn, neu bob un ohonynt, mae'n bosib y caiff mynediad ei wrthod iddynt oherwydd dwysedd cystadleuaeth .am nifer gyfyngedig o leoedd."

B2. Egwyddorion Derbyn Cyffredinol

- Rhaid cydymffurfio â Pholisi Derbyn y Brifysgol;
- Rhaid adolygu a rhoi'r polisi hwn ar waith dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn, wedi'i gadeirio gan y Deon Derbyn Myfyrwyr;
- Bydd y Cofrestrydd yn gyfreithiol gyfrifol am dderbyn myfyrwyr;
- Bydd yr Is-ganghellor yn dirprwyo cyfrifoldeb cyffredinol am faterion sy'n ymwneud â derbyn i Ddirprwy Is-ganghellor neu aelod o staff uwch arall a fydd yn gyfrifol am sicrhau uniondeb y broses dderbyn a bod y Brifysgol yn bodloni ei thargedau derbyn;
- Caiff targedau derbyn Coleg/Ysgol eu cytuno gan Benaethiaid Colegau/Ysgolion mewn cydweithrediad â'r Uned Prosiectau Cynllunio a Strategaeth ym mis Ionawr bob blwyddyn;
- Dylai Pensaethiaid Colegau/Ysgolion sy'n penodi Tiwtoriaid Derbyn, sicrhau eu bod yn deall ac yn cefnogi Polisi Derbyn y Brifysgol a bod ganddynt y sgiliau a'r nodweddion sy'n briodol ar gyfer rhaglenni penodol, ac y rhoddir amser, hyfforddiant ac adnoddau digonol iddynt ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n effeithiol;
- Dylai'r Pennaeth Derbyn benodi tîm o weithwyr derbyn proffesiynol a fydd yn gyfrifol am roi'r broses ddethol ar waith ar gyfer rhaglenni unigol ar ran Colegau/Ysgolion;
- Cyfrifoldeb tiwtoriaid Derbyn a staff MRI'r Coleg yw ymgysylltu â'r tîm derbyn i gytuno ar feini prawf dethol, rhoi cyngor ar benderfyniadau dethol priodol ac argymhell newidiadau i'r polisi a gweithdrefn ddethol ar sail profiad;
- Gellir gwneud cynigion ffurfiol o dderbyn a datganiadau sy'n cadarnhau y derbyniwyd myfyriwr gan neu drwy'r Swyddog Derbyn perthnasol yn unig (fel y'i dirprwywyd gan y Cofrestrydd) neu gan yr aelod o staff priodol mewn digwyddiadau recriwtio tramor yn dilyn ymgynghoriad â'r Swyddfa Dderbyn;
- Y Pennaeth Derbyn, neu ei gynrychiolydd, a fydd yn weinyddol gyfrifol am bob agwedd ar dderbyn ymgeiswyr yn ffurfiol, gan gynnwys ymgysylltu â chyrrff ac asiantaethau allanol sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr.

B3. Y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn

Prif nod y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yw goruchwyllo prosesau derbyn y Brifysgol a datblygu polisiau sy'n ymwneud â recriwtio a derbyn myfyrwyr newydd ar ran y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yn adrodd wrth y Senedd.

Mae prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys:

- Datblygu strategaethau ar gyfer recriwtio myfyrwyr;
- Goruchwyllo prosesau derbyn i'r Brifysgol;
- Adolygu'r polisi derbyn ac egwyddorion derbyn yn flynyddol i sicrhau eu bod yn galluogi'r Brifysgol i gyrraedd ei nodau;
- Monitro prosesau derbyn myfyrwyr i sicrhau bod y polisi a'r egwyddorion derbyn yn cael eu rhoi ar waith yn gywir;
- Sicrhau y caiff Tiwtoriaid Derbyn hyfforddiant;
- Annog cysondeb mewn penderfyniadau derbyn, a sicrhau bod hyn yn ystyried polisiau cyfleoedd cyfartal perthnasol sy'n gysylltiedig â myfyrwyr, e.e. anabledd, cydraddoldeb hiliol.
- Adolygu a datblygu polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ehangu cyfranogiad mewn cydweithrediad â SAILS;

- Rhoi cyngor i'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol ar osod targedau'r Brifysgol mewn perthynas â derbyn myfyrwyr newydd a thargedau penodol ar gyfer pob Coleg/Ysgol yn y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Ysgol/Coleg, o'r Gwasanaethau Proffesiynol perthnasol ac o'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, y Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd a'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni, yn ogystal â chynrychiolwyr myfyrwyr.

B4. Ehangu Mynediad

Fel llawer o sefydliadau, rydym yn gweithio i gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch ac ehangu mynediad iddi ymhlith myfyrwyr heb brofiad blaenorol o addysg prifysgol yn y teulu ac sy'n deillio o grwpiau dan anfantais. Byddwn yn parhau i ystyried pob cais ar sail ei rinweddau i sicrhau tegwch a chysondeb.

a. Prifysgol Haf Ymgynraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru Gall cwblhau Prifysgol yr Haf yn llwyddiannus arwain at gynnig llai llym i ymgeiswyr.

DS Dylai myfyrwyr sydd wedi cwblhau ysgol fer neu dros yr haf sy'n debyg gyda phrifysgol arall anfon manylion llawn at y Swyddfa Dderbyn i asesu a fyddent yn gymwys am yr un lleihad o ran pwyntiau.

b. Myfyrwyr sy'n gadael gofal

Mae Prifysgol Abertawe'n ymroddedig i gynnig cymorth i bobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai hynny sy'n gadael gofal ac sydd am barhau i addysg uwch. Mae'r pecyn cymorth i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal am 3 mis neu fwy ac sydd wedi derbyn "Cynllun Llwybr" i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yn cynnwys cymorth ariannol i ddod i ddiwrnodau agored neu gyfweiliadau; mynediad blaenoriaeth i'r Gronfa Caledi Ariannol, gan ddarparu grant gwerth hyd at £1,000 y flwyddyn ac a allai arwain at gynnig llai llym. Ceir rhagor o fanylion ar-lein:

<http://www.swan.ac.uk/study/current/StudentSupportServices/CareLeaversSupportPackage/>

C. Meini Prawf Derbyn

C1. Gofynion mynediad i israddedigion

Er mwyn dechrau rhaglen israddedig o astudio llawn amser, rhaid i ddarpar fyfyrwyr fodloni gofynion rhaglen (sy'n cael eu pennu gan yr adran sy'n derbyn ac sy'n ymddangos yn y gofynion pwnc unigol yn y Prosbectws i Israddedigion ac ar-lein) y mae ganddynt TGAU gradd C neu uwch yn Saesneg a Chymraeg (neu gyfwerth).

Yn gyffredinol, caiff gofynion rhaglenni penodol ar gyfer rhaglenni israddedig eu mynegi ar ffurf 3 Safon Uwch TGA (y bydd rhai ohonynt wedi'u nodi'n benodol) ar raddau penodol. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn ystyried amrywiaeth eang o gymwysterau eraill, gan gynnwys Bagloriaethau Ewropeaidd, Rhyngwladol a Chymru, Diploma Uwch, Tystysgrif Gadael Iwerddon, Cyrsiau Uwch SAQ, BTEC, Diploma Mynediad at Addysg ac amrywiaeth o gymwysterau rhyngwladol. Gellir gweld tabl sy'n dangos pa gymwysterau sy'n cael eu derbyn yn y prosbectws Israddedig ac ar-lein yn <http://www.swansea.ac.uk/undergraduate/courses/entry-requirements/>

Yn ogystal â'r uchod, gall Colegau a rhaglenni unigol yn y Brifysgol osod gofynion mynediad sylfaenol ar gyfer lefelau cyrhaeddiad yn TGAU neu gyfwerth, yn enwedig mewn Mathemateg. Caiff yr wybodaeth hon ei nodi'n glir mewn gofynion mynediad ar gyfer rhaglenni penodol ar-lein ac mewn gofynion a nodir yn y prospectws.

Mewn achosion arbennig, gall ymgeiswyr gael eu heithrio rhag gofynion y rhaglen os bydd yr adran yn argymhell eu bod wedi cyrraedd y safon mynediad angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau ar raglen gradd maent wedi gwneud cais ar ei chyfer. Fel arfer, byddai hyn yn cael ei asesu drwy gyfweiliad neu asesu darn o waith ysgrifenedig.

C2. Gofynion Mynediad Ôl-raddedig

Caiff gofynion mynediad i raglenni ôl-raddedig eu pennu ar dudalennau gwe'r cwrs ond fel arfer, mae'r gofynion sylfaenol yn gymhwyster gradd Baglor (sy'n gyfwerth ag o leiaf radd arferol yn y DU) gan sefydliad "a gymeradwywyd" (fel y'i diffiniwyd gan NARIC y DU neu gymeradwyaeth flaenorol gan Banel Cofrestru'r Brifysgol) gyda:

- Gradd Ail Ddosbarth Is (2.2) neu gyfwerth am fynediad i radd Meistr a Addysgir neu Feistr drwy Ymchwil (gan gynnwys MRes)
- Gradd Ail Ddosbarth Uwch (2.1) neu gyfwerth am fynediad i raglen ymchwil sy'n arwain at radd MPhil/MD/PhD/EngD

Yn ogystal:

- Mewn rhai Colegau, mae'n ofynnol bod ymgeiswyr MPhil/MD/PhD/EngD wedi cwblhau gradd Meistr yn llwyddiannus cyn dechrau eu rhaglen ymchwil ddewisedig
- Bydd gan rai rhaglenni ofynion corff proffesiynol/statudol y mae'n rhaid eu bodloni yn ogystal â gofynion safonol y Brifysgol.

Fel arall, gall ymgeiswyr ôl-raddedig nad ydynt yn dal y cymwysterau uchod fodloni gofynion mynediad a chofrestru'r Brifysgol drwy un o'r ffyrdd canlynol:

neu

- (i) Radd cyn gradd Meistr gan sefydliad a gymeradwywyd at ddibenion derbyn ar gyfer rhaglen astudio a addysgir y cytunwyd arni; neu
- (ii) Fynediad i fyfyrwyr nad ydynt yn raddedigion (sy'n addas i astudio gradd Meistr a addysgir, Meistr drwy Ymchwil ac MRes yn unig): Rhaid i ymgeiswyr nad oes ganddynt radd baglor gael gwaith helaeth a pherthnasol yn dilyn cymhwyso neu brofiad gwaith arall a aseswyd gan y Detholwyr Derbyn i fod yn briodol at ddibenion derbyn i'r rhaglen berthnasol. Fel canllaw, gallai hyn fod o leiaf dair blynedd o brofiad llawn amser os yw'r cymwysterau uchaf ar lefel Uwch, neu 5 mynedd os yw'r cymwysterau uchaf ar lefel TGAU. Caiff perthnasedd y profiad hwn i'r rhaglen a ddewiswyd hefyd ei ystyried; neu
- (iii) Drwy argymhelliad a gyflwynwyd i'r Panel Cofrestru, i ymgeiswyr nad ydynt wedi bodloni gofynion cofrestru arferol.

C3. Gofynion mynediad i raglenni rhan-amser, galwedigaethol a phroffesiynol

I lawer o Fodiwlau Achrededig a rhaglenni Llwybr a gynigir gan yr Adran Addysg Barhaus i Oedolion (AABO) ym Mhrifysgol Abertawe, nid oes gofynion mynediad ffurfiol. Fodd bynnag, mae rhai amodau'n berthnasol ar gyfer y canlynol:

- Gradd Ran-amser – gall myfyrwyr gael gwahoddiad i gael cyfweiliad a gofynnir iddynt ddarparu datganiad personol ysgrifenedig i gefnogi eu cais.
- Rhaglenni Tystysgrif a Diploma mewn TG – bydd rhaid bod gan fyfyrwyr sgiliau TG, gan gwblhau'n llwyddiannus fodiwlau ar lefel achrededig
- Rhaglenni Tystysgrif mewn Cwrsela – bydd yn rhaid i fyfyrwyr fod wedi cwblhau modiwlau ar lefel achrededig yn llwyddiannus a dod i gyfweiliad.
- Diploma mewn Cwrsela – gofynnir i fyfyrwyr ddarparu geirdaon, llwyddo mewn gwiriad datgelu uwch drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), dod i gyfweiliad a dangos ffitrwydd i ymarfer.

C4. Gofynion mynediad Iaith Saesneg

Rhaid i'r holl fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyrraedd lefel ofynnol o Saesneg ysgrifenedig a llafar cyn dechrau eu rhaglen. Gall myfyrwyr nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt ddangos eu bod wedi bodloni'r gofyniad iaith Saesneg mewn dwy ffordd:

- Drwy brawf iaith Saesneg neu gymhwyster amgen a restrir yn: <http://www.swansea.ac.uk/international/students/requirements/english-requirements/>
- Cwblhau Rhaglen Iaith Saesneg Cyn Dechrau'r Tymor yn llwyddiannus gyda Gwasanaethau Hyfforddi Iaith Saesneg (ELTS) yn Abertawe ar y lefel ofynnol cyn dechrau'r rhaglen academaidd. Ceir rhagor o fanylion yn: www.swansea.ac.uk/ELTS

Er y byddai'r profion a'r cymwysterau uchod yn galluogi myfyrwyr i gael eu derbyn gan y Brifysgol, dylai ymgeiswyr Rhyngwladol ddisgwyl sefyll Prawf Saesneg byr wrth gofrestru i asesu a fyddent yn elwa o gymorth iaith Saesneg ychwanegol am ddim ac i helpu i lywio polisi iaith Saesneg ar natur dderbyniol profion iaith Saesneg amgen.

Am ragor o fanylion, gweler y polisi Gofynion Iaith Saesneg yn www.swansea.ac.uk/admissions

C5. Amodau derbyn eraill

I raglenni sy'n cynnwys rhyngweithio â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed, mae'n ofynnol i ymgeiswyr lwyddo mewn gwiriad datgelu uwch drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) - y Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt.

Yn ogystal, mae angen i ymgeiswyr ar gyfer rhai rhaglenni galwedigaethol neu broffesiynol penodol (megis Nyrsio, Bydwreigiaeth a Meddygaeth) i ddangos "ffitrwydd i ymarfer" meddygol cyn cael eu derbyn.

Mae'r gofynion mynediad manwl ar gyfer pob rhaglen (yn y prospectws perthnasol neu ar dudalennau gwe'r rhaglen) yn nodi a yw unrhyw un o'r amodau hyn yn berthnasol. Hysbysir ymgeiswyr am yr amodau ychwanegol hyn wrth gynnig lle.

Ch. Y Broses Gwneud Cais

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a sicrhau y gall y cyhoedd gyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg neu'n Saesneg a derbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol. Felly, mae croeso i ddarpar fyfyrwyr wneud cais am le drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn ogystal, gofynnir i bob darpar fyfyrwr nodi a hoffent dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac anfonir yr holl ohebiaeth ddilydol yn yr iaith honno. Wrth gofrestru, gofynnir i fyfyrwyr ailgadarnhau eu hiaith ddewisol ar gyfer yr holl ohebiaeth yn y dyfodol.

D1. Ceisiadau

Mae dau brif lwybr i wneud cais ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni'r Brifysgol:

1. UCAS (Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau) i fyfyrwyr y DU/UE sy'n gwneud cais i astudio rhaglen gradd llawn amser: www.ucas.com
2. Hyfforddiant i Athrawon UCAS i'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud cais am gyrsiau hyfforddiant i athrawon ôl-raddedig: <https://www.ucas.com/postgraduate/teacher-training/apply-through-ucas-teacher-training/ucas-teacher-training-apply-1>
3. Yn uniongyrchol i'r Brifysgol: <https://apply.swan.ac.uk/#/home> ar gyfer yr holl geisiadau am raglenni ôl-raddedig a cheisiadau rhyngwladol i raglenni israddedig

Ac eithrio:

- Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) neu Ddiploma Graddedig yn y Gyfraith (GDL): rhaid cyflwyno ceisiadau drwy Fwrdd Ceisiadau Canolog y Gyfraith (LawCAB): www.lawcabs.ac.uk/
- MSc Mecaneg Gyfrifiadol (Erasmus Mundus): rhaid cyflwyno ceisiadau i'n sefydliad partner, Universitat Politecnica Catalunya ym Marcelona, Sbaen
- MSc Gwaith Cymdeithasol: Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy UCAS www.ucas.com
- MA Newyddiaduriaeth, y Cyfryngau a Globaleiddio (Erasmus Mundus): rhaid cyflwyno ceisiadau i'n sefydliad partner, Prifysgol Aarhus yn Nenmarc

Rhoddir ystyriaeth gyfartal i bob cais a dderbynnir erbyn y dyddiad cau perthnasol a gyhoeddwyd (e.e. 15 Hydref ar gyfer Meddyginiaeth ac 15 Ionawr ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni israddedig eraill).

Os derbynnir cais ar ôl y dyddiad cau perthnasol ac mae'r cwrs yn llawn, gellir ei wrthod neu ei ystyried ar gyfer y dyddiad dechrau nesaf sydd ar gael.

D2. Dewisiadau

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i ddarparu system dderbyn sy'n deg. Caiff pob ymgeisydd ar gyfer rhaglen ei ystyried yn unol â'r un meini prawf derbyn. Lle bydd lleoedd yn gyfyngedig, byddwn yn cynnig lleoedd i'r ymgeiswyr hynny sy'n bodloni ein meini prawf dethol orau ac sy'n dangos y potensial mwyaf i gael budd o'u rhaglen ddethol yn nhyb staff derbyn.

Mae dulliau asesu ceisiadau'n amrywio rhwng rhaglenni a gallant gynnwys asesiadau cyn cyflawniad academiaidd a chyflawniad disgwylidig, geirdaon, datganiadau personol neu gefnogi, cyfweiliad, profion gallu a chynigion ymchwil. Gall y tîm derbyn hefyd ystyried amgylchiadau eithriadol unigol neu rwystrau i ddysgu, e.e. salwch estynedig, pan fydd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn cais.

Pan fydd cyfweiliadau, profion neu waith ysgrifenedig ychwanegol yn angenrheidiol ar gyfer rhaglenni fel rhan o'r meini prawf dethol, byddwch yn gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr ar dudalennau perthnasol y rhaglen yn y prospectws ac ar-lein. Bydd hyn hefyd yn cynwys manylion ar sut y cynhelir y broses ddethol a'r meini prawf a ddefnyddir i ddewis ymgeiswyr llwyddiannus.

Ein nod yw gwneud penderfyniad neu wahodd ymgeiswyr i gyfweiliad o fewn 3 wythnos o dderbyn y cais (DS caiff ceisiadau ar gyfer Meddygaeth eu hystyried ar ôl y dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac anfonir gwahoddiadau i gyfweiliad yng nghanol mis Rhagfyr fel arfer).

D3. Y broses gwneud cynnig

Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud cais drwy UCAS, bydd y Brifysgol yn anfon ei phenderfyniad drwy sianeli swyddogol UCAS, ond anfonir y cynnig ffurfiol, gan gynnwys yr Amodau a Thelerau llawn, yn uniongyrchol at yr ymgeisydd.

Pan fydd ymgeisydd wedi gwneud cais yn uniongyrchol i'r Brifysgol, gwneir penderfyniad ffurfiol a'i anfon yn uniongyrchol at yr ymgeisydd drwy'r staff Derbyngol perthnasol.

Boed yn gynnig amodol neu'n ddi-amod, rhoddir cynigion mewn ewyllys da gan ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a/neu'r geirda ar adeg y cais. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd cynnig yn amodol ar ofynion nad ydynt yn academiaidd, e.e. gwiriad cofnodion troseddol boddhaol drwy'r GDG.

D4. Derbyngol cynnig lle

Gan ddibynnu ar y dull o wneud cais, dylai ymgeisydd dderbyn ei gynnig fel a ganlyn:

- Ceisiadau drwy UCAS Apply – dylai'r cynnig gael ei dderbyn drwy UCAS fel naill ai dewis cadarn (cyntaf) neu wrth gefn (ail)
- Ceisiadau drwy hyfforddiant addysgu i raddedigion UCAS – dylai'r cynnig gael ei dderbyn drwy UCAS
- Ceisiadau uniongyrchol neu'r rhai hynny a wnaed drwy Law CABS – dylid derbyn cynigion yn uniongyrchol drwy'r Brifysgol fel a amlinellir yn y llythyr cynnig

Drwy dderbyn y cynnig, bydd ymgeiswyr yn ymrwmo i contract â Phrifysgol Abertawe ar sail yr amodau a thelerau a amlinellir yn y cynnig ac Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe. Ceir manylion llawn yn: www.swansea.ac.uk/admissions

D5. Polisi Canslo

Wedi derbyn cynnig lle, mae gan ymgeiswyr 14 diwrnod i ganslo lle gallant ganslo eu derbyniad heb roi rheswm; a chaiff unrhyw flaendal neu ffi weinyddu neu ffi arall y byddant wedi'u talu eu hadalun llawn. Am ragor o fanylion, gweler: www.swansea.ac.uk/admissions

D6. Cadarnhau canlyniadau

Mae 'cadarnhau' yn cyfeirio at y cyfnod bob blwyddyn pan fydd y Brifysgol yn derbyn canlyniadau arholiadau a chanlyniadau eraill i ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynigion Amodol. Caiff lle myfyrwyr sy'n bodloni gofynion eu cynnig Amodol ei gadarnhau'n awtomatig.

Caiff ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt wedi bodloni'r graddau gofynnol yn llawn eu hadolygu ac mae'n bosib y caiff eu lleoedd eu cadarnhau os oes lle, er ni warentir y bydd hyn yn bosib.

Rhaid bodloni pob amod y cynnig i raglenni israddedig yn llawn erbyn canol dydd ar 31 Awst y flwyddyn dderbyn i warantu lle. Os caiff amodau eu bodloni ar ôl y dyddiad hwn, efallai y byddwn yn gallu cadarnhau lle ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Mae'r broses Gadarnhau ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr israddedig yn cynnwys derbyn a phrosesu data electronig gan UCAS a fydd, yn ei dro, yn derbyn ac yn prosesu data canlyniadau awtomatig gan y byrddau arholi. Mae'r Brifysgol yn cadw'n hawl i newid y cynnig yn sgil gwall electronig.

Mae'r weithdrefn Gadarnhau i ymgeiswyr ôl-raddedig a rhyngwladol yn cynnwys ysgrifennu at sefydliadau blaenorol i ofyn am fanylion gradd neu ganlyniadau eraill, gan wirio canlyniadau laith Saesneg drwy wasanaethau gwirio ar-lein ac ysgrifennu at ganolwyr. Os na fydd yr wybodaeth ar gael yn uniongyrchol, byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr i'w hatgoffa o'u hamodau sydd heb eu cadarnhau a gofyn iddynt ddarparu'r ddogfennaeth berthnasol.

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno eu tystysgrifau gwreiddiol i'w harchwilio wrth gofrestru pan na fydd y Brifysgol wedi gallu cael dilysiad swyddogol o'r dyfarniad o'r corff neu'r sefydliad dyfarnu.

D7. Cofrestru ôl-raddedigion

Cofrestru yw'r broses o dderbyn yr ymgeisydd yn swyddogol i raglen astudio a fydd yn arwain at radd neu ddyfarniad academiaidd arall gan y Brifysgol. Rhaid i ymgeiswyr nad ydynt wedi cofrestru eisoes ddarparu tystiolaeth o'u gradd neu eu cymhwyster cyfwerth ar ffurf tystysgrif wreiddiol neu ddatganiad swyddogol gan y sefydliad dyfarnu neu gorff arall. Os na fydd ymgeisydd yn cofrestru, ni fydd yn gymwys am arholiadau a gall y Brifysgol ei atal rhag parhau â'r ymgeisyddiaeth ar gam priodol yn ystod y flwyddyn academiaidd.

D. Gwybodaeth i ymgeiswyr mewn amgylchiadau penodol

D1. Derbyn pobl ifanc dan 18 oed

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob oedran a chaiff ceisiadau eu hystyried ar eu rhinweddau unigol. Os cynigir lle i ymgeisydd a fydd dan 18 oed ar adeg cofrestru, efallai y bydd rhai

gweithdrefnau deddfwriaethol penodol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni dyletswydd gofal y Brifysgol dros ei myfyrwyr.

I ymgeiswyr rhwng 16 ac 18 oed ar adeg cofrestru, bydd hyn yn cynnwys llofnod rhiant neu warcheidwad ar ddatganiad ar adeg y cynnig. Caiff ymgeiswyr dan 16 oed ar adeg cofrestru eu hystyried ar sail unigol ac maent yn debygol o fod angen cwmni rhiant neu warcheidwad.

Gellir darllen polisi llawn y Brifysgol am Ddiogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed, sy'n cynnwys y polisi ar dderbyn pobl ifanc dan 18 oed, yn:

<http://www.swansea.ac.uk/media/Safeguarding%20Vulnerable%20Groups%20Policy%202013.pdf>

D2. Ymgeiswyr ag anableddau

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr ag anableddau a/neu anghenion cymorth ychwanegol. Rydym yn annog ymgeiswyr i gysylltu â'r Swyddfa Anabledd neu Les cyn gynted â phosib i ganfod pa fath o gymorth a allai fod ar gael i chi a pha wybodaeth y mae angen i chi ei hanfon atom ni.

Caiff ymgeiswyr sy'n datgan anabledd eu hystyried yn unol â'r un egwyddorion ag ymgeiswyr eraill. Yna, wedi derbyn cynnig, anfonir holiadur at ymgeiswyr gan y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn gofyn am wybodaeth am natur y cyflwr a gofynion o ran cymorth. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y Brifysgol roi cymorth ychwanegol ar waith a gwneud addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen arnynt cyn dechrau'r rhaglen. Os bydd ymgeiswyr yn dewis peidio â dweud wrthym am eu hanabledd, yn darparu'r wybodaeth hon ar fyr rybudd cyn dechrau eu rhaglen neu nid ydynt yn darparu gwybodaeth lawn amdano cyn dechrau'r rhaglen astudio, byddwn yn gwneud pob ymdrech i'w helpu, ond efallai na fyddwn yn gallu darparu'r amrywiaeth lawn o gymorth a allai fod ar gael fel arall, neu gallai fod oedi wrth ddarparu'r cymorth hwnnw.

Mae nifer fach o raglenni proffesiynol, megis Nyrsio, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol yn rhoi cymhwysedd i ymarfer yn y proffesiwn perthnasol. O ganlyniad, mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i'r cyhoedd, cyflogwyr a'r proffesiynau i sicrhau y bydd y darpar fyfyrwyr yn gallu cyflawni'r deilliannau dysgu a bennir gan y cyrff proffesiynol a statudol a'u bod yn "ffit i ymarfer". Yn yr achosion hyn, byddai cynnig yn cael ei wneud "yn amodol ar gymeradwyaeth y Panel Ffitrwydd i Ymarfer." Ceir manylion llawn am hyn ar dudalennau gwe'r rhaglenni perthnasol.

Dylai myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU fod yn ymwybodol nad yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys am Lwfans Myfyrwyr Anabl y DU. Cyngorir myfyrwyr i gysylltu â'u Llywodraeth gartref am wybodaeth am gyllid a allai fod ar gael iddynt fel myfyriwr anabl. Dylai myfyrwyr ar raglenni cyfnewid geisio cyllid drwy eu sefydliad 'cartref'.

Mae myfyrwyr ar raglenni astudio byr hefyd yn annhebygol o dderbyn cyllid Lwfans Myfyrwyr Anabledd.

Mae'r Swyddfa Anabledd/Gwasanaeth Lles yn argymhell yn gryf bod myfyrwyr Rhyngwladol a myfyrwyr ar raglenni astudio byr yn cysylltu â'r gwasanaeth Prifysgol perthnasol cyn gwneud cais ffurfiol i'r Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi amser i fyfyrwyr ymchwilio'n llawn i'r cymorth y bydd ei angen arnynt a'i ddeall, ac i ba raddau y gall y Brifysgol ei ddarparu.

E3. Ymgeiswyr ag euogfarnau troseddol

Nod Prifysgol Abertawe yw hyrwyddo cyfle cyfartal i bob ymgeisydd gyda'r cyfuniad cywir o ddawn, sgiliau a photensial ac, o ganlyniad, mae Prifysgol Abertawe'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr amrywiol.

Gofynnwn i ymgeiswyr ddatgelu manylion troseddau blaenorol perthnasol er mwyn i'r Brifysgol asesu a fydd hyn yn effeithio ar ddiogelwch a lles staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu ein cyfleusterau, ac i ba raddau, a/neu addasrwydd unigolyn ar gyfer rhaglen. Ni fydd euogfarn o reidrwydd yn eithrio ymgeiswyr rhag cael lle ar y rhaglen a ddewisir ganddynt. Bydd hyn yn dibynnu ar y rhaglen ac amgylchiadau a chefnidir y tramgwydd(au).

Gofynnir i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol i'r Brifysgol, ar gamau gwahanol yn y broses dderbyn, gan ddibynnu ar natur y rhaglen astudio:

D3.1 Rhaglenni mewn Addysg/Astudiaethau Plentyndod, Iechyd, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol

Gofynnir i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am raglenni sy'n cynnwys gweithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed ddatgelu eu holl euogfarnau neu rybuddiadau (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig) ar eu ffurflen gais, ac eithrio'r rhai hynny sy'n cael eu hystyried yn rhai "disbyddedig" yn ôl y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr; ac eithrio'r rhai hynny y byddai wedi'u "hidlo" yn ôl canllawiau 2013 y GDG (ar ragor o wybodaeth am euogfarnau a "hidlwyd", gweler: <http://hub.unlock.org.uk/wp-content/uploads/What-will-be-filtered-by-the-DBS.pdf>)

Os bydd ymgeisydd sydd wedi datgelu euogfarn yn llwyddiannus mewn cyfweiliad, byddai cynnig yn cael ei wneud yn amodol ar asesiad gan y "Panel Ffitrwydd i Ymarfer" o ran addasrwydd ar gyfer y rhaglen a gofynnir i ymgeiswyr gwblhau gwiriad cofnodion troseddol uwch drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

D3.2 Rhaglenni Eraill

Ar ôl derbyn cynnig, gofynnir i ymgeiswyr i raglenni eraill ddatgelu unrhyw euogfarnau "heb eu disbyddu" sy'n cael eu hystyried yn "berthnasol".

Euogfarnau **perthnasol** yw'r rhai hynny sy'n arwain at oblygiadau i ddyletswydd gofal prifysgolion i ddiogelu eu myfyrwyr, eu staff a'u hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys euogfarnau sy'n ymwneud â thrais, troseddau rhywiol a chyflenwi cyffuriau, yn ogystal â throseddau sy'n ymwneud â gynnu, llosgi bwriadol a therfysgaeth.

Nid oes gofyn i ymgeiswyr ddweud wrthym am euogfarnau '**wedi'u disbyddu**' fel y'u diffiniwyd yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Os bydd angen ystyried yr achos ymhellach, bydd y Pennaeth Derbyn yn mynd â'r achos i Banel Euogfarnau Troseddol y Brifysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch y Brifysgol o'r Gwasanaethau Myfyrwyr, y Gwasanaethau Academaidd a Derbyn am gymorth gweinyddol.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd, bydd y panel yn asesu'r risg i fyfyrwyr eraill, staff ac eraill y gallai'r ymgeisydd ddod i gysylltiad â nhw ac eiddo'r Brifysgol, gan ystyried y canlynol:

- Natur y drosedd(troseddau) ac a yw'n berthnasol i'r rhaglen astudio

- Pa mor hir yn ôl yr oedd y drosedd(troseddau)
- Os bydd mwy nag un drosedd, a oedd pob un yn ddigwyddiad unigol neu'n rhan o gyfres o ddigwyddiadau tebyg
- Argymhellion canolwyr, amgylchiadau esgusodol ac amgylchiadau gwaethybol

Gan ddibynnu ar yr asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r euogfarn, gall y Brifysgol:

- Gadarnhau'r lle ar y rhaglen, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bodloni unrhyw amodau a nodwyd yn y cynnig;
- Atodi amodau ychwanegol o ran derbyn/cofrestru ar y rhaglen; neu
- Ganslo'r cynnig a'r derbyniad.

Dylai ymgeiswyr sy'n derbyn rhybuddiad neu euogfarn ar ôl gwneud cais a chyn y dyddiad cofrestru yn y Brifysgol hysbysu'r Swyddfa Dderbyn heb oedi. Os bydd y myfyriwr yn cael ei ddedfrydu'n euog ar ôl cofrestru, dylai hysbysu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd ar unwaith.

Am ragor o fanylion, gweler y polisi llawn ar Recriwtio Myfyrwyr ag euogfarnau troseddol yn: www.swansea.ac.uk/admissions

E4. Ymgeiswyr sy'n ceisio mynediad wedi'i ohirio

Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n bwriadu gohirio eu mynediad am flwyddyn (blwyddyn sabothol). Fodd bynnag, mae nifer fach o raglenni nad ydynt yn caniatáu mynediad wedi'i ohirio oherwydd nifer gyfyngedig y lleoedd sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys Meddygaeth a Bydwreigiaeth. Cynghorir ymgeiswyr i wirio mynediad rhaglenni ar-lein am fanylion a yw blwyddyn sabothol yn dderbyniol ai peidio cyn cyflwyno cais neu ofyn am fynediad wedi'i ohirio.

Fel arfer, byddwn yn ystyried dau gais am fynediad wedi'i ohirio. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno gohirio am drydydd tro, gofynnir iddo gyflwyno cais newydd.

E5. Achrediad Dysgu Blaenorol (APL)

Mae ymgeiswyr am raglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir sy'n dymuno i'w dysgu blaenorol gael ei ystyried am eithriad rhannol o'u gradd neu'r rhaglen ôl-raddedig a ddewiswyd ganddynt gysylltu â'r Detholwr Derbyn perthnasol yn y lle cyntaf.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod 3 math o ddysgu blaenorol:

- Trosglwyddo credydau** - Pan fydd credydau neu gymhwyster wedi'u dyfarnu gan sefydliad addysg uwch yn y DU fel rhan o gymhwyster ffurfiol neu gan sefydliad y tu allan i'r DU fel rhan o gymhwyster cyfatebol. Mae trosglwyddo credydau dim ond yn bosib pan fydd dysgu blaenorol wedi cynnwys yr un maes pwnc ac yn gyffredinol, dylid fod wedi ei gwblhau o fewn y 5 mlynedd flaenorol;

- b) Achrediad Dysgu Blaenorol a Ardystiwyd (APcL)** - dysgu blaenorol (megis dyfarniadau datblygiad proffesiynol neu ddyfarniadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth) sydd ar lefel addysg uwch ond nid yw wedi arwain at gredydau AU neu gymhwyster;
- c) Achrediad Dysgu Blaenorol Arbrofol (APeL)** - pan fydd dysgu a wnaed drwy brofiad yn cael ei asesu a'i gydnabod.

Bydd ceisiadau ar gyfer APcL ac APeL yn arwain at godi ffi weinyddol sy'n werth 10% o ffi'r modiwl ar gyfer modiwlau sy'n cael eu hystyried ar gyfer APL.

Fel arfer, mae hi'n bosib cael hyd at draean o gyfanswm credydau'r rhaglen drwy APL (e.e. 120 credyd o radd baglor 3 blynedd o hyd a 60 credyd rhaglen MSc/MA). Fodd bynnag, mae rhai eithriadau'n berthnasol ar gyfer rhaglenni unigol megis y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol.

Am fanylion, gweler y polisi APL llawn yn: www.swansea.ac.uk/admissions

D6. Ymgeiswyr sy'n dymuno ailymgeisio

Bydd Detholwyr Derbyn yn penderfynu a ddylid ystyried ail gais ac ni ddylid cymryd yn ganiataol y caiff ail gais ei ystyried bob tro. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu ar wybodaeth o geisiadau blaenorol (gan gynnwys gohebiaeth, datganiadau personol, geirdaon a pherfformiad mewn cyfweiliad) neu wybodaeth o gyfnod blaenorol o gofrestrriad yn y Brifysgol wrth asesu addasrwydd ymgeisydd ar gyfer y rhaglen.

Dylai ymgeiswyr sydd wedi methu rhaglen astudio ym Mhrifysgol Abertawe ac sy'n dymuno ailymgeisio wneud hynny yn y ffordd arferol (drwy UCAS neu ar-lein, yn ôl yr hyn sy'n briodol). Caiff ceisiadau eu hystyried gan Ddetholwyr Derbyn, gan ystyried cymwysterau a gwblhawyd a gwybodaeth o'r cyfnod blaenorol o astudio. Byddai ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer yr un maes neu faes cytras mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, a byddai angen cymeradwyaeth gan y Deon Derbyn Myfyrwyr neu ddirprwy.

D7. Ymgeiswyr y mae angen fisa arnynt i astudio yn y DU

Bydd rhaid bod gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr Rhyngwladol fisa er mwyn astudio yn y DU a bydd derbyn cais a chyhoeddi Cadarnhad o Dderbyn at Ddibenion Astudio (CAS) yn amodol ar gydymffurfio ag agweddau perthnasol canllawiau noddwr Haen 4 Swyddfa Gartref y DU a chanllawiau'r Brifysgol sy'n berthnasol i dderbyn ymgeiswyr Haen 4.

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr y mae angen fisa Haen 4 arnynt i astudio yn y DU dalu blaendal o £2,000 cyn derbyn eu CAS. Y tu hwnt i'r cyfnod canslo 14 diwrnod o hyd, ad-delir y blaendal os gwrthodir fisa i ymgeiswyr astudio'n llawn amser yn y DU neu os ydynt yn methu bodloni gofynion mynediad y Brifysgol yn unig fel arfer. Gellir gohirio'r blaendal tan flwyddyn astudio yn y dyfodol. Mae hyn yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Flaendaliadau Ffioedd Addysgu, y gellir ei ddarllen yn: <http://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/tuition-fees/refunds-policy/>

Gan fod dyletswyddau a rhwymedigaethau gan y Brifysgol yn unol â'r system Fewnfudo sy'n seiliedig ar Bwyntiau Haen 4, os bydd gofynion fisa yn newid, neu os cyfyd nad yw ymgeiswyr yn gymwys am fisa (er enghraifft, os na allant fodloni gofynion dilyniant academiaidd neu gredadwyedd yr UKVI) ar ôl i gynnig gael ei wneud, mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r Brifysgol dynnu cynnig o le yn ôl.

Dd. Adborth, apeliadau a chwynion

Gall ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus wrth sicrhau cynnig i astudio yn y Brifysgol ofyn am adborth am y rhesymau dros eu gwrthod i'r Detholwr Derbyn o fewn 28 niwrnod o hysbysiad y penderfyniad. Darperir adborth mewn perthynas â meini prawf dethol y rhaglen. Gall ymgeiswyr ailymgeisio'r flwyddyn ddilynol, wedi ystyried yr adborth.

Ein nod yw ystyried yr holl geisiadau yn deg ac yn effeithiol yn unol â'n gweithdrefnau. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd yn anfodlon â'r canlyniad neu driniaeth cais, dylai godi'r pryderon gyda'r Swyddfa Dderbyn. Os, wedi hynny, mae'r ymgeisydd yn parhau i gael pryderon, gall ddefnyddio'r Polisi Apeliadau a Chwynion i Ymgeiswyr y gellir dod o hyd iddo yn:

<https://www.swansea.ac.uk/admissions/complaintsandappeals/>

E. Gwybodaeth anwir neu gamarweiniol

Ni ddylai ymgeiswyr hepgor gwybodaeth berthnasol neu y gofynnir amdani, camarwain (er enghraifft, drwy lèn-ladrad) neu roi ffug wybodaeth ar unrhyw gam yn y broses dderbyn, gan gynnwys ar ôl gwneud cynnig. Os bydd hyn yn digwydd, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo cais, tynnu cynnig o le yn ôl a/neu adalw'r cofrestriad os bydd y wybodaeth hon yn dod i'r amlwg yn dilyn dechrau'r tymor. Ceir manylion pellach ar-lein yn:

<http://www.swansea.ac.uk/admissions/inaccurateinformation/>

F. Defnydd o ddata ymgeisydd gan y Brifysgol

Caiff yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cais ei defnyddio'n bennaf at ddibenion prosesu'r cais a chreu cofnod myfyriwr. Yn ogystal, caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i wneud datganiadau statudol i gyrff megis yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Caiff yr holl ddata ei ddal a'i brosesu yn unol â gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (sef "GDPR") a Deddf Diogelu Data 2018. Fel arfer, mae ceisiadau'n gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, y staff priodol yn y Brifysgol ac yn achos ymgeiswyr Rhyngwladol, Fisâu a Mewnfudo Swyddfa Gartref yr UE. Mewn rhai achosion, gellir rhannu data ceisiadau'n allanol hefyd pan fydd rhaglenni wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â sefydliadau trydydd parti a phan fydd gan staff sy'n allanol i'r Brifysgol rôl yn y broses dethol at ddibenion derbyn. Er mwyn datgelu ac atal twyll, mae hefyd gan y Brifysgol yr hawl i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau allanol megis yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

Ceir gwybodaeth lawn am sut mae'r Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio data personol darpar fyfyrwr, a'i hatodlen ddargadw ar-lein yn:

<https://www.swansea.ac.uk/admissions/applicantdataprivacystatement/>

Gellir darllen polisi defnyddio a dargadw gwiriadau cofnodion troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y Brifysgol ar-lein yn:

<http://www.swansea.ac.uk/admissions/criminalrecordchecks/>

Ff. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yn y broses dderbyn

Ff1. Darparu gwybodaeth

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw darparu gwybodaeth lawn a chywir i gefnogi eu ceisiadau. Dylai ymgeiswyr hefyd hysbysu'r Swyddfa Dderbyn heb oedi os bydd newidiadau neu gywiriadau i'r wybodaeth a darparwyd yn y cais gwreiddiol.

Ff2 Amodau a Thelerau cynnig

Drwy dderbyn cynnig o le, bydd ymgeiswyr yn ymrwmo i gontract gyda Phrifysgol Abertawe ar sail yr amodau a thelerau a amlinellwyd yn y cynnig ac yn Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe: www.swansea.ac.uk/admissions

Ff3 Ffioedd a blaendaliadau

Myfyrwyr sy'n gyfrifol am dalu eu ffioedd a'u dyledion. Efallai y bydd y Brifysgol yn cytuno i anfonebu trydydd parti ar gyfer ffi neu ddyled (er enghraifft, y Student Loans Company, awdurdod lleol, cyngor cyllido neu noddwr arall). Nid yw hyn yn effeithio ar gyfrifoldeb terfynol y myfyriwr dros dalu'r ffi neu'r ddyled.

Mewn rhai rhaglenni astudio ôl-raddedig, rhaid talu ffioedd "mainc" ychwanegol (h.y. sy'n gysylltiedig â defnyddio labordai). Pan fydd hyn yn berthnasol, caiff y ffioedd ychwanegol eu hamlinellu yn y cynnig o dderbyn a byddant yn daladwy ar yr un sail â ffi addysgu safonol.

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gategoreiddio myfyrwyr fel rhai "Cartref" neu "Dramor" at ddibenion ffioedd addysgu.

I rai rhaglenni proffesiynol penodol (e.e. Y Diploma Ymarfer Cyfreithiol a'r Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion), gall y Brifysgol, mewn ymgynghoriad â'r Ysgol/Coleg dan sylw) godi blaendal na chaiff ei ad-dalu, i'w gydbwysu yn erbyn y ffi addysgu, pan fydd ymgeisydd yn derbyn cynnig o le.

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau derbyn Myfyrwyr Rhyngwladol Fisâu a Mewnfudo'r DU, mae'n ofynnol i Fyfyrrwyr Rhyngwladol dalu blaendal na chaiff ei ad-dalu tuag at eu ffioedd addysgu cyn y gellir cyhoeddi'r dogfennau angenrheidiol ar eu cyfer i'w galluogi i wneud cais am fisa myfyriwr i'w galluogi i astudio yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein yn: www.swansea.ac.uk/admissions

G. Ymwadiad

Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir mewn prospectysau, llyfrynau ac ar-lein yn ddefnyddiol ac yn gywir ar ddydiad eu cyhoeddi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai newidiadau, i raglenni, lleoliad astudio, cyfleoedd am leoliad, cyfleusterau neu ffioedd er enghraifft, yn angenrheidiol oherwydd rhesymau dilys sy'n ymwneud â staffio, cyllid, rheoliadau a rhesymau academaidd. Byddwn yn ymdrechu bob amser i leihau newidiadau a hysbysu darpar fyfyrwyr yn briodol. Bydd newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y prospectysau a thudalennau gwe rhaglenni ar-lein yn cael ei diweddarau'n chwarterol yn www.swansea.ac.uk/undergraduate-programme-changes a www.swansea.ac.uk/postgraduate-programme-changes

G1 Tynnu rhaglenni'n ôl neu wneud newidiadau iddynt

Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd yn angenrheidiol i'r Brifysgol dynnu rhaglenni'n ôl neu eu gohirio. Ni fydd hyn yn digwydd llai na 5 mis cyn cofrestru. Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl neu os gwneir newidiadau sylfaenol i'ch rhaglen ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu'n gynnar am dynnu'r rhaglen yn ôl/am y newidiadau hynny a lleihau eu heffaith drwy gynnig rhaglen amgen addas (os bydd ar gael ac yn amodol arnoch chi'n bodloni gofynion y rhaglen) neu eich helpu i ddod o hyd i raglen neu brifysgol amgen. Bydd hawl gennych dynnu'n ôl o'ch rhaglen a gwneud cais am ad-daliad llawn neu rannol o unrhyw ffioedd addysgu a dalwyd gennych.

Crëwyd Mai 2009

Diweddarwyd Tachwedd 2019